

## Taflen 1

# Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

## Kindertransport

### GOSOD Y LLWYFAN

Ar 9-10 Tachwedd 1938, dinistriwyd cartrefi, siopau a synagogau Iddewig yn ystod *Kristallnacht* (Noson y Gwydr Toredig). Digwyddodd y trais hwn a noddwyd gan y Natsïaid ledled yr Almaen ac yn nhiriogaethau Awstria a'r Sudetenland (yn Tsiecoslofacia). Yn dilyn *Kristallnacht*, ac ar ôl dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, cytunodd Prydain Fawr i helpu nifer amhenodol o blant amddifad a phlant oedd yn ffoaduriaid. Roedd yn rhaid i'r plant fod o dan 17 oed a byddai'n rhaid iddynt deithio fel plant dan oed heb gwmni. Roedd angen noddwr ar bob plentyn i dalu am eu gofal a'u haddysg, ac i ariannu eu dychweliad adref wedi i'r perygl fynd heibio. Cyhoeddodd Gwasanaeth Cartref y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) apêl i ddinasyddion Prydain agor eu cartrefi i blant oedd yn ffoaduriaid. Aeth gwirfoddolwyr i'r Almaen ac i rannau o Ewrop a feddiannwyd gan y Natsïaid i drefnu cludiant. Bu sefydliadau ym Mhrydain Fawr yn helpu i baratoi ar gyfer dyfodiad y plant. Daeth yr ymdrech hon i gael ei hadnabod fel y Kindertransport (Cludiant Plant).

### KINDERTRANSPORT

Gadawodd y Kindertransport cyntaf Berlin, yr Almaen, ar 1 Rhagfyr 1938, a chyrrhaeddodd Harwich, Prydain Fawr, ar 2 Rhagfyr 1938. Teithiodd y rhan fwyaf o blant ar drên i borthladdoedd yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd, lle aethant ar fwrdd llong i Harwich. Teithiodd rhai plant o Tsiecoslofacia i Brydain Fawr mewn awyren. Parhaodd trafniadaeth i adael o ddinasoedd mawr fel Berlin, Fienna, a Phrag, tan 1 Medi 1939, y diwrnod y dechreuodd yr Ail Ryfel Byd. Gadawodd y drafnidiaeth olaf o'r Iseldiroedd ar 14 Mai 1940 – bedwar diwrnod ar ôl i'r Natsïaid oresgyn. Unwaith y cyrrhaeddodd y plant Brydain Fawr, cawsant eu hanfon i fyw gyda theuluoedd maeth. Os na ddaethpwyd o hyd i deulu ar eu cyfer, anfonwyd y plant i hosteli, ysgolion preswyl neu ffermydd. Cafodd rhwng 9,000 a 10,000 o blant eu hachub, gan gynnwys 7,500 o blant Iddewig. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn cael eu trin yn dda yn eu cartrefi newydd, ond cafodd rhai eu curo, eu llwgu a'u trin fel gweision. Roedd tua 1,000 o'r plant – bechgyn dros 17 oed yn bennaf – yn cael eu cadw mewn gwersylloedd carchar yng Nghanada, Awstralia, neu ar Ynys Manaw. Unwaith yr oeddent yn ddigon hen, ymunodd rhai â'r fyddin Brydeinig.

### AR ÔL HYNNY

Pan adawodd y plant eu cartrefi, roeddent yn credu y byddai'r gwahanu oddi wrth aelodau eu teulu yn rhywbeth dros dro ac y byddent yn dychwelyd adref yn y pen draw i gael eu haduno. Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf o aelodau'r teulu a adawyd ar ôl yn Ewrop a feddiannwyd gan y Natsïaid eu lladd yn ystod yr Holocost. Yn 2018, cyhoeddodd yr Almaen y byddai'n talu €2,500 (£2,249 yn 2018) i bob goreswr Kindertransport byw.

### TYSTIOLAETH

Mae USC Shoah Foundation's Visual History Archive (VHA) yn cadw dros 55,000 o ddarnau o dystiolaeth o oroeswyr a thystion Holocost a hil-laddiad, gan gynnwys 750 o ddarnau o dystiolaeth yr Holocost sy'n trafod y Kindertransport.



Taflen 1

# Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

## Kindertransport

### Ffynhonnell

USC Shoah Foundation: IWitness, *Brief Histories: Kindertransport* (2020) <[https://iwatch.usc.edu/SFI/Data/EducatorData/ContentEdit/Brief\\_Histories\\_Kindertransport.pdf](https://iwatch.usc.edu/SFI/Data/EducatorData/ContentEdit/Brief_Histories_Kindertransport.pdf)> [cyrchwyd 20 Ionawr 2023]

